**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon**
**Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P-VG-5308-16

Mr Rhun ap Iorwerth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

22 Mehefin 2016

Annwyl Rhun,

Yn dilyn fy natganiad llafar ar 14 Mehefin ynghylch chew mis cyntaf caniatâd tybiedig ar gyfer rhoi organau yng Nghymru, rwyf yn ysgrifennu i roi atebion i ddau o'ch cwestiynau fel y cytunwyd yn y Siambr.

**1) Faint o bobl a allai fod wedi rhoi organau oedd wedi optio allan yn y cyfnod yna?**

Ar gyfer y cyfnod 1 Rhagfyr 2015 - 31 Mai 2016, roedd 21 o gleifion yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer rhoi organau ond y canfuwyd eu bod wedi optio allan ac a oedd heb fynd ymlaen felly i roi organau.

**2) Yn achos rhai nad oedd wedi nodi'r naill ffordd na'r llall, yn sawl achos gwnaed penderfyniad i beidio â rhoi organau wedi trafodaethau efo'r teulu, ac nid, hynny yw, ar sail feddygol?**

O'r wyth achos lle'r oedd caniatâd yn dybiedig ond lle nad aed ymlaen i roi organau yn y pen draw, roedd pum achlysur lle'r aeth y teulu ymlaen i drechu'r caniatâd tybiedig. Roedd tri achos hefyd lle'r oedd y teulu'n cefnogi'r penderfyniad o ran caniatâd tybiedig ond lle na roddwyd organau yn y pen draw oherwydd anaddasrwydd meddygol.

Calondid yw gwybod bod y newid mewn deddfwriaeth a'r prosesau i gefnogi'r newid yn galluogi'r rhai nad ydynt am roi eu horganau allu cofnodi'r penderfyniad hwn a bod y teulu a gweithwyr iechyd proffesiynol yn parchu'r penderfyniad hwnnw. Dyna paham y mae ein hymgyrch barhaus i godi ymwybyddiaeth ac i annog pobl i gael y sgyrsiau hynny mor bwysig.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hyderaf y bydd yr wybodaeth hon o gymorth ichi.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport